

**DWEUD  
EICH  
DWEUD**

**QUALIFIED FOR  
THE FUTURE**



**CYMWYS AR  
GYFER Y DYFODOL**



# 'Dweud Eich Dweud'

## ar TGAU Gwneud-i-Gymru y dyfodol

Mae Cymwysterau Cymru yn creu set newydd sbon o gymwysterau TGAU fydd yn gwireddu uchelgais y Cwricwlwm newydd i Gymru ac yn diwallu anghenion dysgwyr.

Maen nhw'n ymgynghori ar gynigion ar gyfer 26 TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig eraill. Mae'r rhain wedi'u trefnu o gwmpas yr hyn y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyfeirio atyn nhw fel y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae Cymwysterau Cymru eisiau barn pobl am y cynnwys a'r ffyrdd o asesu'r cymwysterau newydd fydd ar gael o 2025 ymlaen.

Mae'r cymwysterau arfaethedig yn cynnwys TGAU newydd cyfun yn y canlynol: y Gwyddorau (gan gynnwys Bioleg, Cemeg a Ffiseg), Iaith a Llenyddiaeth Cymraeg, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, a Mathemateg a Rhifedd.

Mae Cymwysterau Cymru hefyd am i bobl ledled y wlad rannu eu barn ar gynnwys ac asesu pynciau TGAU newydd sbon gan gynnwys Astudiaethau Cymdeithasol, Peirianeg, Ffilm a Chyfyngau Digidol, a Dawns.

**Yn gyffredinol, bydd y cynllun arfaethedig ar gyfer TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig yn cynnig:**

- Cynnwys newydd sy'n adlewyrchu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau y bydd dysgwyr yn eu cael o astudio'r Cwricwlwm i Gymru.
- Cynnwys ac asesiadau hyblyg i helpu ysgolion i gynllunio eu cwricwla eu hunain a diwallu anghenion eu dysgwyr.
- Cymysgedd cytbwys o ddulliau asesu, gyda llai o bwyslais ar arholiadau a mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu yn ystod eu cwrs astudio.
- Defnydd mwy effeithiol o dechnoleg ddigidol mewn asesiadau.

**Am fwy o wybodaeth ac i  
'Ddweud Eich Dweud' ewch i  
[dweuideichdweud.cymwysterau.cymru](http://dweuideichdweud.cymwysterau.cymru).**

[dweuideichdweud.cymwysterau.cymru](http://dweuideichdweud.cymwysterau.cymru)

